



Ein Cyf:
Eich Cyf:
Dyddiad: 18 Ebrill 2016

Annwyl Sir/Fadam,

DEDDF BRIFFYRDD 1980

ADNEWYDDU TWNELAU M4 BRYN-GLAS

PENDERFYNIAD AR ASESU'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL O DAN RAN VA DEDDF BRIFFYRDD 1980

RHEOLIADAU GWARCHOD CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU ARBENNIG 2010 – RHEOLIAD 61: ASESU'R GOBLYGIADAU I SAFLEOEDD EWROPEAIDD.

TREFNIADAU DIRPRWYO

1. Mae'r swyddogaethau am benderfynu p'un ai i gynnal y gwaith adnewyddu a'r gwelliannau a enwir uchod neu beidio wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn sgil paragraff 30 o Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Cyfrifoldeb Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ("y Gweinidog"), un o Weinidogion Cymru yw gwneud y penderfyniad.

CYFLWYNIAD

2. Mae Gweinidogion Cymru'n cynnig adnewyddu Twnelau M4 Bryn-glas a'r adeileddau gerllaw.

Y CYNLLUN

3. Mae'r cynllun yn cynnwys yn fras y canlynol:

Ailadeiladu'n llwyr y lôn gerbydau yn y ddau dwunnel, gan gynnwys sylfeini'r lonydd cerbydau, gwella'r draeniad a gosod leinin newydd; Darparu Systemau Peiriannu i Ddiogelu Bywydau, yn rhai newydd ac yn rhai cyfnewid, gan gynnwys rhoi goleuadau, arwyddion rheoli lonydd, arwyddion argyfwng, teledu cylch cyfyng (CCTV) a Synwryddion Digwyddiadau newydd yn lle'r rhai sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes ac a niweidiwyd gan dân. Gwaith atgyweirio mawr i Bont Afon Wysg a Thraphont Malpas bob pen i Dwnelau Bryn-glas er mwyn gwella'r ffordd ymhellach gan ddefnyddio'r athroniaeth rheoli traffig twnelau.

Bydd y prosiect yn darparu nifer o fuddiannau, o safbwynt gwelliannau strategol i'r gefnffordd:

- Gwarantu cydnerthedd y Twnelau a thrwy hynny cydnerthedd ffordd strategol yr M4, am o leiaf 10 mlynedd tan pryd bynnag y caiff y darn newydd arfaethedig i'r draffordd i'r de o Gasnewydd (sy'n destun gweithdrefnau statudol ar hyn o bryd) ei adeiladu a'i agor;
- Lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â Thwnelau M4 Bryn-glas a Phont Afon Wysg i Lywodraeth Cymru; o safbwynt diogelwch defnyddwyr, cydnerthedd y ffordd a chydymffurfio â'r safonau dylunio diweddaraf.

Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL

Ymgynghori

4. Mae'r Datganiad Amgylcheddol (ES) yn ddatganiad anstatudol oherwydd casglwyd yn sgil cynnal y broses benderfynu o dan y Gyfarwyddeb Asesu'r Effaith Amgylcheddol (EIA) na fyddai angen cynnal ES statudol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y penderfyniad hwn rhwng 23 Hydref 2015 a 11 Rhagfyr 2016. Ni fynegwyd gwrthwynebiad iddo.

5. Gan mai ES anstatudol fydd hwn, nid oes rheidrwydd arnom i ymgynghori â'r cyhoedd nac â'r Cyrff Amgylcheddol Statudol (Cyfoeth Naturiol Cymru, CADW a Chyngor Dinas Casnewydd). Fodd bynnag, fel mater o arfer dda, gwahoddwyd y Cyrff Amgylcheddol Statudol i gyflwyno'u sylwadau.

6. Mae gofyn hefyd baratoi Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol yn unol â Rheoliadau 61 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Rhaid i Weinidogion ofyn am farn y cyhoedd os gwelant fod hynny'n briodol. Mae ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru yn ofyn statudol.

7. Ymgynghorwyd â'r Cyrff Statudol ar y cynigion gan gynnwys yr ES ar 9 Mawrth 2016 yn unol â Chyfarwyddeb EC 2011/92/EU (fel y'i diwygiwyd). Cyflwynwyd hefyd Ddatganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (SIAA) o effeithiau posibl y Cynllun ar yr Afon Wysg a safleoedd sy'n gysylltiedig ag Aber Hafren, yn unol â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, i'r Cyrff Amgylcheddol Statudol. Gofynnwyd am sylwadau erbyn 7 Ebrill 2016.

Lleoliad y Copi

8. Ceir copi o'r ES a'r SIAA i bobl gael eu gweld yn y man canlynol:

i. Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Cangen Gorchmynion, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;

MATERION A GODWYD YNGHYLCH Y CYNIGION, YR ES A'R SIAA

9. Gweler isod grynodedb o'r pwyntiau a godwyd ynghylch y cynigion, yr ES a'r SIAA gan gynnwys ymatebion Llywodraeth Cymru (mewn italig).

9.1 Cyfoeth Naturiol Cymru

Dywedodd CNC bod y gwaith arfaethedig yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Wysg cyn belled ag y cymerir y mesurau lliniaru a ddisgrifir yn y dogfennau.

9.2 Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent (GGAT)

Dywedodd GGAT na fyddai'r cynllun a'i waith cysylltiedig yn eu barn nhw, yn effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.

9.3 Adran yr Amgylchedd, Tir, Natur a Choedwigaeth Llywodraeth Cymru

Dywedodd Adran yr Amgylchedd, Tir, Natur a Choedwigaeth Llywodraeth Cymru fod yr adroddiadau SIAA ac ER i bob golwg yn drylwyr a chymesur a'u bod wedi rhoi ystyriaeth realistig o safleoedd N2K. Dylai Cynllun Rheoli Amgylcheddol y Gwaith Adeiladu (CEMP) gynnwys mesurau cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth.

Caiff y CEMP ei gyflwyno'n ffurfiol gan y Contractwr ar gyfer ei gymeradwy i Lywodraeth Cymru.

BARN Y GWEINIDOG

10. Mae'r Gweinidog wedi ystyried yn ofalus yr achos dros gynnal y Cynllun, yr ES a phob barn a fynegwyd am yr ES gan y cyrff yr ymgynghorwyd â nhw

11. Mae'r Gweinidog yn derbyn bod angen y Cynllun hwn am y rhesymau a restrir ym mharagraff 3 y llythyr hwn, ond rhaid cadw'r ddysgl yn wastad rhwng hynny ac effeithiau amgylcheddol y Cynllun a'r safbwyntiau a fynegwyd gan gyrff yr ymgynghoriad.

12. Mae'r Gweinidog yn fodlon bod y materion y cyfeiriwyd atyn nhw ym mharagraffau 9.1 i 9.3 wedi'u datrys yn briodol. Mae hi'n fodlon hefyd fod yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, a ddisgrifiwyd yn yr Adroddiad Amgylcheddol, yn ateb gofynion Cyfarwyddeb EC 2011/92/EU (fel y'i diwygiwyd); bod yr Asesiad o'r Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd a ddisgrifiwyd yn asesiad yr SIAA o effeithiau posibl y cynllun ar yr Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA); Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a safle Ramsar yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rywogaethau 2010, gan roi Cyfarwyddeb 92/43/EEC ar waith; a bod gofynion Rheoliadau Priffyrdd (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2007 wedi'u hateb. Mae'r Gweinidog yn nodi bod Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy wedi cymeradwyo'r SIAA.

13. Mae'r Gweinidog yn nodi'r materion a godwyd gan ymatebwyr yr ymgynghoriad. Mae hi'n fodlon, serch hynny, bod yr EIA/Asesiad o'r Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd (AIES) wedi ystyried yr wybodaeth berthnasol sy'n berthnasol i'r effeithiau ac wedi penderfynu mai'r cynllun hwn yw'r gorau i wireddu amcanion y cynllun ac i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

14. O ganlyniad, mae'r Gweinidog yn fodlon bod yr ymatebion a roddwyd yn mynd i'r afael yn foddhaol â'r materion a godwyd ac mae wedi penderfynu y caiff y cynigion fynd yn eu blaenau.

HYSBYSU'R PENDERFYNIAD

15. Mae'r llythyr hwn wedi'i anfon at bawb yr ymgynghorwyd â nhw a gellir ei weld yn www.llyw.cymru (dewiswch 'Cymraeg', 'Pynciau', 'Ffyrdd', 'Prosiectau Ffordd', 'Llythyrau Penderfynu ac Adroddiadau Arolygwyr'). Mae'r llythyr hwn, ynghyd â'r ES anstatudol a'r SIAA ar gael ichi eu gweld hefyd yn y manau a restrir ym mharagraff 8 uchod tan 14 Mehefin 2016.

Yn gywir

A Falleyn

Dirprwy Gyfarwyddwr Cyflenwi Seilwaith